

## **Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) Gwasanaethau Gofal Sylfaenol**

### **Hysbysiad Preifatrwydd (Cleifion)**

#### **1. Cyflwyniad**

Mae GIG Cymru yn gartref i saith sefydliad iechyd, sy'n cynnwys Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC). Mae PCGC yn darparu ac yn rheoli nifer o gynhyrchion a gwasanaethau ar hyd a lled Cymru.

Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn is-adran o fewn Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru sy'n darparu ystod o wasanaethau cymorth i fyrdau iechyd yng Nghymru sy'n galluogi darparu gwasanaethau gofal sylfaenol i gleifion, sef:

- Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol
- Gwasanaethau Fferylliaeth Cymunedol
- Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

Eir i'r afael â hyn yn fwy manwl yn adrannau 4 a 5 isod.

Mae'r daflen hon wedi'i chyhoeddi gan y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol ar y cyd â'r swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth o fewn PCGC i gynorthwyo, egluro a hwyluso'r broses hon o fewn GIG Cymru.

#### **2. Eich hawliau**

Mae'r daflen hon yn ymdrin â'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth a elwir yn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) ac mae'n esbonio sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth.

Bydd yr wybodaeth a roddwn ichi am sut y byddwn yn defnyddio'ch data:

- yn gryno, yn hawdd ei darllen ac yn hygyrch
- wedi'i hysgrifennu'n glir ac yn syml ac
- yn rhad ac am ddim.

#### **3. Pa gyfreithiau ydyn ni'n eu dilyn?**

Y gyfraith sy'n pennu sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. Dyma restr o'r gyfreithiau rydym yn eu dilyn sy'n caniatáu inni ddefnyddio'ch gwybodaeth:

- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU)

- Bil Diogelu Data'r DU 2018
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023
- Deddf GIG (Cymru) 2006

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yw deiliad a defnyddiwr eich gwybodaeth wrth ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn adran 5 (isod).

#### 4. Pam rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol?

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i wneud y canlynol:

- Sicrhau eich bod wedi'ch cofrestru'n gywir gyda phractis meddyg teulu i dderbyn gwasanaethau clinigol.
- Sicrhau bod ceisiadau am daliadau gan bractisiau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddion ac optegwyr am ddarparu gwasanaethau yn ddilys.
- Cynnal gwerthusiad o'r gwasanaethau gan fesur y profiadau y mae cleifion yn adrodd amdanynt.
- Hysbysu prosiectau ymchwil gan ddefnyddio gwybodaeth ddemograffig a/neu ganlyniadau.

Bydd hon yn wybodaeth a ddarparwyd gennych chi pan fyddwch:

- Wedi cofrestru gyda'ch practis meddygon teulu.
- Wedi derbyn triniaeth gan optegydd.
- Wedi derbyn triniaeth ddeintyddol.

Mae'r data a ddefnyddiwn (am resymau cyfreithlon a dim ond pan fo'i angen) yn cynnwys eich:

- Rhif GIG
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Name

- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Gwybodaeth (fel eich hawl i fudd-daliadau) sy'n dangos eich bod yn gymwys i dderbyn gwasanaeth am ddim.
- Presgripsiynau fferyllfa neu optegol y GIG yr oeddech wedi'u cael yng Nghymru.

Mewn rhai amgylchiadau (gweler Adran 5 isod) efallai y byddwn hefyd yn derbyn copi papur o'ch cofnod meddygol gan eich meddyg teulu.

## 5. Beth yw pwrpas prosesu'r wybodaeth?

Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn gweithio ar ran byrddau iechyd i ad-dalu'r gwasanaethau canlynol am ddarparu gwasanaethau GIG i gleifion:

- Practisiau Meddygon Teulu
- Fferyllfeydd Cymunedol
- Optegwyr
- Deintyddion

Er mwyn cyfrifo a dilysu taliadau i bractisiau meddygon teulu o dan delerau'r contract y maent yn ymrwymo iddo gyda GIG Cymru, mae angen inni wybod:

- Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru gyda phractis
- Eu hoedran a'u rhywedd
- Ble maen nhw'n byw
- Eu cymhwysedd i dderbyn gwasanaethau penodol.

Efallai y bydd eich practis meddyg teulu hefyd yn gofyn i ni storio copi papur o'ch cofnod meddygol ar ei ran a byddwn yn hwyluso trosglwyddo eich cofnod meddygol papur os byddwch yn newid practis meddyg teulu.

Pan fyddwn yn trin eich cofnod meddygol ar ran eich practis meddygon teulu, nid ydym yn prosesu unrhyw ran o'r wybodaeth yn y cofnod hwnnw fel mater o drefn, fodd bynnag mae'n bosibl y byddwn yn ychwanegu crynodeb o'ch gofal at y cofnod papur.

Er mwyn cyfrifo a dilysu taliadau i fferyllfeydd cymunedol, optegwyr a deintyddion am ddarparu gwasanaethau'r GIG, mae angen i ni wybod un neu fwy o'r canlynol:

- Enw, oedran a rhyw y claf sy'n derbyn y gwasanaeth.
- Ble maen nhw'n byw.
- Eu cymhwysedd i dderbyn gwasanaethau penodol.

## Cleifion sydd heb eu Cofrestru

Mewn rhai amgylchiadau lle nad yw claf wedi'i gofrestru gyda Phractis Meddygon Teulu ar hyn o bryd, neu lle mae wedi marw, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol sy'n gyfrifol am gadw'r cofnodion meddygol hyn.

Lle bo gennym eich cofnod meddyg teulu, fel claf sydd heb gofrestru neu glaf ymadawedig nid ydym yn prosesu unrhyw wybodaeth yn y cofnod hwnnw.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn defnyddio'ch data at ddibenion darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Anfon llythyrau at gleifion i roi gwybod iddynt am eu rhif GIG pan fydd un yn cael ei ddyrannu gyntaf.
- Prosesu cofrestriadau cleifion newydd a dadgofrestriadau mewn practisiau meddygon teulu i gadw rhestrau cywir o niferoedd cleifion mewn practisiau meddygon teulu.
- Ysgrifennu at gleifion ar ran Byrddau Iechyd Lleol ynghylch darparu gwasanaethau gofal sylfaenol neu eu neilltuo i restr practis meddygon teulu.
- Ysgrifennu at gleifion pan fyddant wedi cael eu tynnu oddi ar restr eu practis meddygon teulu.
- Cynnal cysoniadau o restrau Practisiau Meddygon Teulu i sicrhau bod hyd y rhestrau yn gywir.

Mae'r rhesymau eraill pam mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn prosesu eich data sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal sylfaenol yn cynnwys:

- Archwilio (gyda gwybodaeth anhysbys/dienw).
- Gwerthuso'r gwasanaeth (gyda gwybodaeth anhysbys/dienw).
- Ymchwil (gyda gwybodaeth anhysbys/dienw).
- Darparu holiaduron i Fesur y Profiadau a Adroddir gan Gleifion.
- Hysbysu cleifion am wasanaethau eraill a allai fod yn fuddiol iddynt.
- Gellir defnyddio data hefyd at ddibenion atal a chanfod twyll.

## 6. Rhannu eich gwybodaeth

Dim ond pan fydd gennym yr awdurdod cyfreithiol priodol neu, lle bo'n briodol, eich cysyniad (caniatâd) i wneud hynny y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth.

Ni fyddwn byth yn rhannu gwybodaeth adnabyddadwy y tu allan i'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol mewn perthynas â'r data a ddefnyddir neu a gedwir amdanoch, ond byddwn yn rhannu data dienw (anadnabyddadwy) pan ofynnir amdano gan drydydd partion ar ôl cael ei gymeradwyo'n foesebol gan bwyllgorau iechyd. Dim ond at ddibenion ymchwil a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol y mae hyn.

Bydd pob gwasanaeth sy'n darparu gofal o fewn GIG Cymru ond yn gofyn, yn defnyddio ac yn rhannu'r wybodaeth leiaf sydd ei hangen arno i'ch trin.

Ni fyddwn byth yn gwerthu eich gwybodaeth.

## 7. Diogelwch eich Gwybodaeth

Mae PCGC yn cymryd y cyfrifoldeb sydd ganddi i warchod eich gwybodaeth bersonol yn ddifrifol iawn. Ni waeth a yw'r wybodaeth honno ar ffurf electronig neu ar bapur.

Rydym hefyd yn cyflogi rhywun sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth a'i chyfrinachedd er mwyn sicrhau:

- Bod eich gwybodaeth wedi ei diogelu, ac er mwyn
- Rhoi gwybod ichi sut y caiff ei defnyddio.

Mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn rheolaidd. Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr i helpu i ddiogelu'r wybodaeth a roddwyd i Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn GIG Cymru yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â thrin eich gwybodaeth, ni waeth pa adran mae'n gweithio ynddi.

## Gwerthuso Cyfrinachedd

Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am reoli cyfrinachedd hefyd yn ystyried preifatrwydd a chyfrinachedd unrhyw ddata a gedwir ac os bydd yn cael eu defnyddio mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan gynigir defnyddio technolegau newydd neu pan ystyrir newidiadau i'r trefniadau cyfredol.

## 8. Beth yw'ch hawliau?

Bydd PCGC yn sicrhau eich bod yn gallu cael mynediad at eich gwybodaeth. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o ba wybodaeth sydd gennym.

Mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- Gwybod sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio a
- Derbyd copïau o'r wybodaeth honno.

Os ydych chi am wybod rhagor am yr hawliau sydd gennych i weld eich data, cyсыллтвч â [Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC](#).

Mae PCGC yn ceisio ymateb i bob cais i gael mynediad at wybodaeth cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i'r sefydliad ymateb i'ch cais cyn pen mis ar ôl ei dderbyn, ond gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r cais yn gymhleth ac yn fawr.

Dim ond i'ch gwybodaeth chi eich hun y mae'r hawliau hyn yn berthnasol. Gallwch wneud cais i weld gwybodaeth unigolyn arall os yw un o'r amodau hyn yn berthnasol:

- Rydych yn rhiant neu'n warcheidwad i blentyn sy'n rhy ifanc i arfer ei hawliau cyfreithiol ei hun.
- Lle bo rhywun (sydd â'r galluedd meddyliol i allu gwneud hynny) wedi awdurdodi unigolyn i weithredu ar ei ran.
- O dan delerau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Bydd PCGC yn gwirio'ch cais i sicrhau bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn wybodaeth bersonol. Bydd yn amlwg bod yr wybodaeth yn bersonol fel arfer, ond bydd PCGC yn cysylltu â chi os nad yw'n glir.

### Oes rhaid i mi dalu ffi?

Byddwn yn darparu'r wybodaeth yn rhad ac am ddim.

Fodd bynnag, gallem godi ffi fach. Byddwn yn codi ffi os yw'r cais yn un mawr neu'n un sydd wedi ei gyflwyno sawl gwaith. Bydd yn dibynnu ar faint y bydd yn costio i ddarparu'r wybodaeth. Os ydych chi eisiau gwybod rhagor am y ffioedd a godir am wybodaeth, cysylltwch â [Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC](#).

### Sut gaiff yr wybodaeth ei darparu?

Caiff yr wybodaeth ei darparu ar ffurf sy'n hawdd ei defnyddio ar system arall os yw'n electronig (e.e. ffeil Microsoft Word neu Excel). Fel arall, caiff ei darparu ar bapur.

## 9. Caniatâd (Cydsyniad)

Er mwyn sicrhau bod y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon, mae'n bosibl y bydd PCGC yn gofyn am eich caniatâd i'w defnyddio. Nid yw hyn yn angenrheidiol os yw'r defnydd am sail gyfreithlon o dan reoliad presennol megis, er enghraifft, dibenion Triniaeth.

Mae'n rhaid eich bod wedi rhoi caniatâd (cydsyniad) o'ch gwirfodd ac nad ydych wedi bod dan bwysau i wneud hynny. Mae'n rhaid bod hyn wedi ei wneud mewn modd eglur, ac mae'n rhaid eich bod yn ymwybodol o sut y caiff eich gwybodaeth ei thrin.

### Rhoi gwybod ichi a chael eich cydsyniad

Os gofynnir am eich caniatâd ar gyfer unrhyw dasgau penodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol, byddwn yn esbonio'r hyn y gofynnir i chi roi

caniatâd ar ei gyfer. Bydd rhaid i PCGC brofi ei bod wedi rhoi gwybodaeth ichi, a'ch bod wedi llwyr ddeall beth roddoch chi ganiatâd ar ei gyfer.

Os gofynnir am ganiatâd, gallech ddarparu hwn mewn sawl ffordd gan gynnwys:

- Yn ysgrifenedig.
- Ticio blwch ar dudalen we.
- Dewis opsiynau mewn ap ffôn symudol.
- Trwy unrhyw weithred arall sy'n dangos eich bod yn derbyn defnyddio'ch gwybodaeth.

## 10. Beth am atal y defnydd o wybodaeth?

Os gofynnir inni roi'r gorau i ddefnyddio data unigolyn, bydd PCGC yn storio'r wybodaeth ond ni fydd yn ei defnyddio mwyach.

Fodd bynnag, byddwch yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio, gan gynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth, ar yr adeg y cymerir y penderfyniad, a hynny ni waeth pa adran neu wasanaeth sydd dan sylw.

## 11. Beth am yr hawl i gywiro neu i ddileu gwybodaeth anghywir?

Mae gennych yr hawl i ofyn i PCGC gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth, ni waeth beth yw'r gwasanaeth dan sylw.

Mae'n rhaid i PCGC sicrhau ei bod yn dileu neu'n cywiro unrhyw wybodaeth y profwyd ei bod yn anghywir neu'n anghyflawn.

### Cadw eich gwybodaeth

Ni fyddwn ond yn cadw gwybodaeth am gyhyd ag y bo angen.

Cedwir cofnodion yn unol ag amserlen cadw a gwaredu'r Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn pennu'r cyfnod lleiaf o amser y dylid cadw cofnodion.

### Gwneud cwyn

Os hoffech wneud cwyn ynghylch unrhyw broblemau sydd wedi codi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, cysylltwch â:

[Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC  
shared.services@wales.nhs.uk](mailto:shared.services@wales.nhs.uk)

Os ydych chi'n dal yn anfodlon yn dilyn eich cwyn, mae gennych yr hawl i wneud cwyn i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Yr Ail Lawr  
Tŷ Churchill,  
17 Ffordd Churchill,  
Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: [wales@ico.gsi.gov.uk](mailto:wales@ico.gsi.gov.uk)  
Gwefan: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

### Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r daflen hon, neu os oes unrhyw gwestiynau gennych am yr wybodaeth hon, cysylltwch â ni drwy:

E-bost: [nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk](mailto:nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk)  
Rhif Ffôn: 01495 332000

Gwefan: <http://www.primarycareservices.wales.nhs.uk/>